

BBC NEWYDDION

BWLETIN YSGOL



SGRIPT HUW

GWERS 1

1. Helo - Huw Edwards ydw i – ac ‘dw i’n cyflwyno newyddion y BBC am bump ac am ddeg o’r gloch.

Y peth da am weithio yn Newyddion – hyd yn oed wedi chwarter canrif yn fy achos i – yw bod pob diwrnod yn wahanol – mae’r newyddion yn newid o hyd.

Ac mae cael popeth yn barod mewn da bryd wastad yn her – a cheisio ei gael e’n iawn bob tro!

Felly nawr dyma’ch cyfle chi i wneud yr un peth – i wneud eich newyddion eich hun – yn gweithio i ddedlein go iawn, ar gyfer cynulleidfa go iawn – a’i gael e’n iawn.

Eich dedlein yw dau o’r gloch - ar Ddiwrnod Newyddion y Bwletin Ysgol. Mi fyddwch chi’n dod o hyd i wybodaeth ac yn ei chasglu - Yn ysgrifennu adroddiadau, yn eu rhoi at ei gilydd ac yn eu gosod mewn trefn–

Ac yn darlledu’ch newyddion ar y we fel bod pobl trwy Gymru – a hyd yn oed y byd – yn gallu gweld eich gwaith.

Yn achos y rhan fwyaf ohonoch chi, bydd hynny ar wefan eich ysgol, gyda chysylltiad o safle’r BBC.

Felly sut ewch chi ati?

Wel, byddwch chi’n dechre drwy ddysgu’r chwe cham ar gyfer creu newyddion – canfod, casglu, ysgrifennu, rhoi at ei gilydd, gosod trefn, a darlledu.

Mae fideo fel hwn ar gyfer pob cam, a gobeithio bydd hyn yn helpu.

Yna, bydd hyfforddiant i fod yn ohebwydr drwy ymarfer ar gyfer y Diwrnod Newyddion.

Ac, yn union fel ni yn y BBC, byddwch yn paratoi rhai adroddiadau newyddion o flaen llaw.

Nawr bod syniad gyda chi o’ch nod, gadewch i ni ddechrau drwy holi’r cwestiwn sylfaenol: Beth yw newyddion?

Wel - mae'n debyg mae'r ateb symlaf yw bod Newyddion yn dweud wrth bobl beth sy'n digwydd yn y byd. Mae'n newyddion bydd pobl EISIAU ei wybod efallai neu'n newyddion DYLAI pobl wybod.

Ond waeth pa fath o newyddion, mae angen iddo fe fod o ddiddordeb i'ch CYNULLEIDFA; mewn geiriau eraill, y bobl fydd yn gwylio, yn gwrando – ac yn darllen eich newyddion.

Bydd arnoch chi angen amrywiaeth dda o straeon - ac efallai y byddwch chi am gynnwys rhywfaint o newyddion lleol, newyddion cenedlaethol a newyddion rhyngwladol.

Dewiswch eich straeon gan feddwl am y gynulleidfa. Weithiau mae'n amlwg, ond weithiau, mae sawl dewis. Chi sydd i benderfynu.

Yma yn Newyddion Deg y BBC mae angen i ni ddod o hyd i ddigon o newyddion er mwyn llenwi hanner awr bob dydd – a dyw hynny ddim yn anodd. Y broblem fel arfer yw beth i'w hepgor. Fel arfer mae gyda ni tua deg adroddiad erbyn y diwedd.

O ble mae'r straeon yn dod?

Dod o hyd i'r newyddion yw'r cam cyntaf o'r broses chwe cham.

Mae pethau da yn digwydd o'ch cwmpas chi drwy'r amser – ac efallai bod yna stori dda.

Edrychwch o'ch cwmpas – gwrandewch – siaradwch gyda phobl – i ddarganfod beth sy'n digwydd.

Gofynnwch: Beth oedd y peth diwethaf i fi glywed, oedd mor gyffrous nes bod rhaid i fi ddweud wrth ffrind yn syth?

Ac yna gofynnwch: A fyddai gan bobl eraill ddiddordeb neu oes angen i bobl eraill wybod am hyn hefyd?

Mae newyddiadurwyr yn dod o hyd i straeon o nifer o lefydd gwahanol – ry' ni'n eu galw nhw'n FFYNONELLAU.

Un ffynhonnell bwysig – credwch neu beidio – yw newyddiadurwyr eraill. Mae eu hadroddiadau'n ymddangos ar y teledu, ar y radio, ar-lein – ac mewn papurau newydd bob munud o'r dydd.

Ond peidiwch â meddwl bod popeth maen nhw'n ei ddweud yn wir. Mae angen trin ffynonellau newyddion fel pobl. Os ydych chi'n ymddiried ynddyn nhw, rydych chi'n fwy tebygol o'u credu nhw.

Ac os bydd dau berson gwahanol – neu ddwy ffynhonnell wahanol – yn dweud yr un stori wrthoch chi, yna mae'n fwy tebygol o fod yn wir. Cymharwch yr hyn a ddywedodd y naill a'r llall er mwyn gweld pa mor gywir ydyn nhw.

GWIRIONEDD A CHYWIRDEB yw un o WERTHOEDD NEWYDDION y BBC.

Bydda i'n sôn am ragor o'r gwerthoedd hyn mewn gwersi eraill – ac maen nhw'n ddefnyddiol iawn. Byddan nhw'n help i chi fod yn fwy na gohebydd – yn ohebydd y bydd pobl yn ymddiried ynddo neu ynddi.

Dy' ni ddim yn cael popeth yn iawn bob tro yn y BBC ond ry' ni'n gwneud ein gorau glas i gadw at y gwerthoedd newyddion hyn.

Ffynhonnell arall yw datganiadau i'r wasg.

Mae mudiadau yn anfon gwybodaeth atom ni am ddigwyddiadau sydd ar y gweill, neu am bethau maen nhw wedi'u gwneud. Maen nhw hefyd yn eu gosod ar eu gwefannau.

Ry ni'n clywed am lawer o newyddion drwy siarad â phobl. Efallai eu bod nhw'n arbenigwyr – pobl sy'n gwybod am bwnc arbennig – neu'n ffrindiau neu'n gymdogion.

A daw rhai o'n straeon newyddion gorau gan dystion - pobl sydd yn y fan a'r lle wrth i rywbeth ddigwydd - a maen nhw'n adrodd yr hanes i ni.

Gair i gall, bydd rhai straeon y dewch chi o hyd iddyn nhw yn anodd dros ben i'w hadrodd heb wneud llawer o hyfforddiant cyfreithiol – felly mae'n fwy diogel i chi eu hosgoi nhw – achosion llys sy'n digwydd ar y pryd, a chlecs am enwogion, er enghraifft.

Bydd eich athro yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am hyn.

Felly i grynhoi:

Meddylwch am eich cynulleidfa.

Dewiswch straeon yr hoffen nhw neu y dylen nhw wybod amdanyn nhw.

Dewiswch amrywiaeth o newyddion – rhywfaint o newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Byddwch yn effro a gwyllo a gwrando am newyddion

A gwiriwch eich ffynonellau er mwyn sicrhau eu bod yn dweud y gwir a'u bod nhw'n gywir

Pob hwyl – a mwynhewch.

GWERS 2

2. Helo eto.

Nawr eich bod chi wedi dod o hyd i'ch stori newyddion ac wedi'i gwirio'n ofalus – yr ail gam yw casglu'r holl gynhwysion ynghyd er mwyn creu eich adroddiad.

Dechreuwch drwy gasglu'r ffeithiau – y cwestiynau bach Beth? Pwy? Ble? Pryd?

A Pham?:

Beth ddigwyddodd?

Pwy oedd yn rhan o hyn?

Ble ddigwyddodd hyn?

Pryd?

Pam ddigwyddodd hyn?

A pheidwch ag anghofio bod Sut? yn ddefnyddiol hefyd.

Ffeithiau yw sylfaen newyddion – felly casglwch eich ffeithiau eich hun a'u gwirio'n ofalus. O wneud hyn ewch chi ddim 'mhell o'ch lle.

Efallai y gallwch chi gasglu llawer o'r wybodaeth drwy ymchwil –

Ond byddwch chi hefyd yn gallu casglu rhywfaint o ffeithiau ychwanegol – ac efallai ffeithiau nad oes gan neb arall – drwy gyfnewid â phobl sydd wedi'u heffeithio neu sydd â diddordeb yn y pwnc.

Yn ogystal â chasglu ffeithiau ychwanegol, mae cyfweiliadau hefyd yn gyfle i gasglu barn.

Sicrhewch eich bod chi'n gwybod y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn. Ellwch chi ddim gwadu ffaith – ond dim ond safbwynt rhywun yw barn, a does dim sicrwydd ei fod yn wir.

Pan fyddwch chi'n cynnwys barn yn eich adroddiad – yn arbennig os oes llawer o drafod ar y pwnc – yna mae'n rhaid cael cydbwysedd drwy gynnwys y farn groes neu safbwynt gwahanol.

Ydych chi'n cofio i fi sôn am werthoedd newyddion y BBC? Mae bod yn DDIDUEDD yn un arall ohonyn nhw.

Mae hyn yn golygu rhoi'r wybodaeth i bobl fel eu bod yn gallu penderfynu drostyn nhw eu hunain.

Mae angen cynllunio ar gyfer cyfweiliadau da, felly cofiwch am y geiriau bach fel Beth? Pwy? Ble? Pryd? Pam? a Sut? wrth baratoi eich cwestiynau.

Mae hwn yn cael ei alw'n gwestiwn agored. Sicrhewch eich bod chi'n cynllunio cwestiynau agored.

A gwrandewch yn ofalus ar yr atebion gewch chi.

Bydd cwestiwn dilynol da yn symud eich stori yn ei blaen.

Yn aml bydd cwestiynau dilynol byr, syml, fel Pam? a Sut? a Beth sydd angen ei wneud am hyn? yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Gofynnwch i'ch gwestai sillafu ei enw a'i deitl yn eglur – a gwnewch nodyn ohono.

Bydd angen hyn arnoch chi pan ddaw hi'n amser i YSGRIFENNU a RHOI eich adroddiad AT EI GILYDD.

A dyma rai cynhwysion eraill bydd eu hangen arnoch chi er mwyn gwneud eich adroddiad yn un bywiog ac atyniadol.

Lluniau – sef LLUNIAU LLONYDD yn iaith y BBC–

Fideo ychwanegol – felly rhywbeth perthnasol heblaw am y cyfweiliadau.

A sain, er enghraifft sŵn cefndir ac effeithiau sain

Mae'n bosib bywiogi adroddiad hefyd trwy ddefnyddio graffeg. Gall graffeg hefyd helpu'ch cynulleidfya i gofio ffeithiau pwysig. Dyma rai syniadau.

Rhif mewn teip trwm dros ddelwedd gref –

Graff yn dangos newidiadau a ddigwyddodd dros gyfnod o amser -

Neu fap yn dangos lleoliadau.

Gair i gall: mae graffeg sydd wedi'i chreu yn barod, fel y rhai sydd ar y we, yn eiddo i'r person a'u creodd nhw – a bydd angen eu caniatâd arnoch chi cyn y gallwch chi eu defnyddio nhw.

Hebdo, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy.

Mae'r un peth yn wir am luniau a cherddoriaeth.

Bydd eich athro'n gallu dweud mwy wrthoch chi ynglŷn â beth allwch chi ei ddefnyddio neu beidio, ond yn aml mae'n symlach – ac yn fwy creadigol – i wneud eich rhai eich hun.

Felly i grynhoi –

Casglwch y ffeithiau – y cwestiynau bach: Beth? Pwy? Ble? Pryd? A Pham?

A pheidiwch ag anghofio Sut?– a sicrhau eu bod nhw'n gywir

Cynlluniwch y cyfweiliadau a gofyn cwestiynau agored, nid cwestiynau ie-neu-na

Gwrandewch yn ofalus ar yr atebion

Gofynnwch gwestiynau dilynol

Sicrhewch gydbwysedd o ran safbwyntiau

Casglwch luniau llonydd, fideo, sain a graffeg er mwyn bywiogi'ch adroddiad

Ac yn bennaf – byddwch yn creadigol.

Felly – ma's â chi – casglwch y newyddion – a mwynhewch.

GWERS 3.

Helo eto.

Hyd yn hyn – ry'n ni wedi dysgu sut mae dod o hyd i stori newyddion a chasglu ffeithiau, barn, a deunydd arall.

Nawr – yr her yw ysgrifennu'r stori newyddion – dyna gam tri.

Cyn dechrau, gofynnwch – Beth yw prif bwynt y stori?

Os nad ydych chi'n siŵr, dwedwch y stori wrth ffrind. Beth yw'r peth cyntaf rydych chi'n ei ddweud wrthyn nhw?

Dyma fydd DECHRAU eich adroddiad. Os nag ewch chi at y pwynt yn syth, byddwch chi'n colli sylw'ch cynulleidfa.

Yn y newyddion, yn aml mae'r ffeithiau allweddol ar y cychwyn.

Yng NGHANOL eich adroddiad mae'r gorau o'ch cyfweiliadau.

Felly edrychwch ar eich deunydd eto. Pa atebion sydd orau? Pa un yw'r farn mwya' diddorol? Pa ddyfyniad fyddai'n rhoi cydbwysedd i chi?

Mi fydda i'n rhoi mwy o wybodaeth i chi ar hyn yng ngwers 4 – rhoi'r newyddion at ei gilydd

A bydd angen i chi gynllunio DIWEDDGLO hefyd.

Gallwch edrych i'r dyfodol, neu ofyn i'r gynulleidfa am eu barn nhw, neu feddwl am ddiwedd glo gwreiddiol.

Nawr eich bod chi wedi cynllunio'ch adroddiad, mae'n amser i'w ysgrifennu. Mae tair C i'w cofio wrth ysgrifennu newyddion -

Clir

Cryno

A Chywir.

Clir –

Ysgrifennwch fel tasech chi'n dweud y stori wrth un person.

Defnyddiwch iaith syml y bydd pawb yn ei deall.

Peidiwch â defnyddio gair hir os bydd un byrrach yn gwneud y tro.

Hyd yn oed os y' chi wedi dod o hyd i air newydd na fyddech chi fel arfer yn ei ddweud, os nag yw e'n gyfarwydd peidiwch â'i ddefnyddio.

Dywedwch y geiriau mas yn uchel wrth ysgrifennu, a byddwch yn gallu eu darllen yn glir.

Rydw i bob amser yn darllen fy sgriptiau mas yn uchel wrth eu hysgrifennu nhw

Cryno -

Sy'n golygu byr.

Os yw'ch adroddiad yn rhy hir – bydd eich cynulleidfa'n colli diddordeb.

Felly cadwch at y ffeithiau pwysig yn hytrach na rhoi gormod o wybodaeth yn y stori.

A chadwch y brawddegau yna'n fyr.

Os yw'n bosib torri gair neu frawddeg ddiangen, yna gwnewch hynny bob tro.

Parhewch i dorri'r adroddiad yn ôl nes bod dim ond y pethau hanfodol ar ôl.

Cywir -

Sicrhewch fod eich ffeithiau'n gywir.

Ac mae angen i'ch gramadeg a'ch atalodi fod yn gywir hefyd.

Mae bod yn gywir hefyd yn golygu bod yn onest. Sicrhewch eich bod chi'n dweud pethau yn eich geiriau eich hun, ac yn dweud o ble ddaeth y wybodaeth.

Mae cael rhywun i edrych dros eich gwaith yn syniad da.

Yn aml gall ail bâr o lygaid weld pethau na allwch chi.

Yn ystafell newyddion y BBC ry' ni'n gwirio gwaith ein gilydd drwy'r amser.

A pheidiwch â bod ag ofn newid eich adroddiad - sawl gwaith os oes angen.

Os yw'ch geiriau am gael eu darllen ar lafar, yna SGRIPT yw'r enw arny'n nhw.

Mae newyddiadurwr proffesiynol yn darllen tua thri gair yr eiliad, felly gallwch chi weithio mas faint o amser sydd ei angen er mwyn darllen eich adroddiad.

Byddwch chi'n ymarfer hyn yn ystod gwrs 6 – darlledu newyddion.

DIOGELU PLANT yw un o werthoedd newyddion y BBC.

Mae'n bwysig peidio â datgelu gormod o wybodaeth amdano chi'ch hun ar y we.

Rheol y Bwletin Ysgol yw y dylech chi ddefnyddio enwau CYNTAF yn unig ar gyfer unrhyw un sy'n iau na 18.

Felly, i grynhoi -

Yr awgrymiadau heddiw yw:

Ysgrifennwch fel tasech chi'n dweud y stori wrth un person

Ewch at y pwynt yn syth ar gychwyn eich adroddiad

Cynlluniwch ddechrau, canol a diwedd glo eich adroddiad

Cofiwch y tair C: Clir, Cryno, Cywir

Darllenwch y geiriau ar lafar wrth ysgrifennu

Mae angen ysgrifennu, ail ysgrifennu, ac ysgrifennu unwaith eto

Defnyddiwch enwau cyntaf yn unig ar gyfer pobl sy'n iau na 18

Cofiwch yr awgrymiadau hyn a byddwch chi'n iawn. Pob hwyl ac ewch ati i ysgrifennu.

(END)

GWERS 4.

Croeso unwaith eto.

Nawr eich bod chi wedi ysgrifennu'r stori – a chasglu deunydd ychwanegol, y pedwerydd cam wrth wneud y newyddion yw eu rhoi nhw at ei gilydd i greu adroddiad.

Gan ddibynnu ar y cyfrwng newyddion – fideo, sain, neu destun – bydd arnoch chi angen rhai, neu bob un, o'r rhain:

Geiriau

Dyfyniadau

Fideo

Sain – gall fod yn sŵn cefndir neu'n effeithiau sain

Lluniau llonydd – term y cyfryngau am ffotograffau

A graffeg – rhai llonydd neu wedi animeiddio

Fel arfer ry' ni'n dechrau'r broses drwy ddewis y dyfyniadau gorau o'r cyfweiliadau wnaethon ni.

Edrychwch ar eich cyfweiliadau eto a dewis yr atebion gorau –

Y rhai fydd wir yn helpu i adrodd y stori.

Ond byddwch yn deg â'r gwestai. Peidiwch â dewis darnau sy'n rhoi'r argraff anghywir.

Mae TEGWCH yn un arall o werthoedd newyddion y BBC.

Nawr cymerwch eich geiriau – a all fod ar ffurf sgript – a gosod y dyfyniadau o'r cyfweiliadau yn eu lle.

Yn aml mae cynllunio hyn ar bapur cyn dechrau rhoi'r gwaith at ei gilydd ar y sgrin yn helpu.

Yn ystod y gwaith cydosod yma – sef y GOLYGU – mwy na thebyg bydd angen i chi newid eich geiriau sawl gwaith – er mwyn cyd-fynd â'r dyfyniadau.

Mae hynny'n hollol dderbyniol ac yn arwain at well adroddiad.

Yna, meddyliwch am y deunydd arall i chi gasglu – y fideo, y sain, y lluniau llonydd a'r graffeg.

Penderfynwch ble mae'r lle gorau i'w gosod – fel eu bod nhw'n helpu i adrodd y stori – a diddori'ch cynulleidfa.

Mae un peth mae'n rhaid i fi bwysleisio – os ydych chi'n gweithio gyda fideo, gwnewch yn siŵr bod y geiriau yn gweithio gyda'r lluniau. Dydw i ddim yn golygu bod angen i chi eu disgrifio nhw'n llythrennol – maen nhw'n gallu adrodd eu stori eu hunain.

Ond mae'n rhaid i chi wneud synnwyr o'r lluniau.

Edrychwch ar hwn.

Dyma glip fideo o gynorthwydd cinio yn gweini sglodion, ac yna glip o gynorthwydd arall yn gweini salad.

Nawr mae'r ddwy ddelwedd hyn yn dweud wrthym ni beth sy'n digwydd mewn ysgol.

Does dim angen i chi ddweud bod un yn gweini sglodion a'r llall yn gweinio salad. Fe allwch chi weld hynny.

Ond gallwch chi ddweud: Roedd sglodion ar y fwydlen bob diwrnod yn yr ysgol hon, ond nawr maen nhw'n cael eu cynnig ar ddydd Gwener yn unig. Mae plant yn cael eu hannog i fwyta salad iach yn eu lle.

Felly mewn geiriau eraill defnyddiwch y lluniau er mwyn ategu'r hyn ry chi'n ei ddweud. Cyfunwch nhw i greu un neges.

A chofiwch, y rhybudd roddais i yng ngwers 2, wrth i chi gasglu deunydd - gwnewch yn siŵr bob amser bod gyda chi ganiatâd i'w ddefnyddio yn eich adroddiad.

Mae llawer o gynhwysion i'w rhoi at ei gilydd - ac yn yr ystafell newyddion mae angen i chi wneud hynny i ddedlein - sy'n golygu yn aml fod yr amser golygu yn brin.

Y gyfrinach yw peidio â boddi yn y manylion.

Os ydych chi'n gwneud newyddion fideo am y tro cyntaf, mi all hi helpu i ganolbwyntio ar y sain i ddechrau.
Rhowch y geiriau a'r dyfyniadau at ei gilydd mewn trefn. Bydd y fideo sydd ynghlwm wrthyn nhw wedi'u gosod yn eu lle hefyd felly.
Hyd yn oed os y daw'r amser golygu i ben, bydd yr adroddiad yn gweithio.

Dyna gyngor i chi sy'n rhoi newyddion fideo at ei gilydd, ac i'r rheiny ohonoch chi sy'n golygu newyddion sain –

Cofiwch adael i bobl anadlu!

Mae'r ddau ddyfyniad hyn, wedi'u golygu at ei gilydd, yn gwneud i'r gwestai swnio'n brin o anadl!

Ond os ydych chi'n torri'r dyfyniad ar ôl saib, mae'n swnio'n naturiol.

A gair o gyngor i chi sy'n rhoi darn o newyddion testun at ei gilydd –

Defnyddiwch flwch ffeithiau neu graffeg gwybodaeth er mwyn egluro rhywbeth yn fwy syml nag mewn geiriau.

Mae hefyd yn syniad da gwneud golygiad bras ac yna cael barn rhywun arall.

Fel arall allwch chi dreulio'ch holl amser yn potsian gyda rhywbeth yn ddiangen.

Felly i grynhoi -

Dyma'r cynghorion craff:

Dewiswch y dyfyniadau gorau o'ch cyfweiliadau

Gosodwch nhw gyda'r geiriau

Ychwanegwch fideo, sain, lluniau llonydd a graffeg – a gwneud yn siŵr bod gyda chi ganiatâd i'w defnyddio nhw a'u bod nhw'n ffitio'r sgrïpt

Ac yn olaf, gofynnwch i rywun arall edrych ar eich golygiad ac awgrymu gwelliannau

Yn bennaf oll – mwyhewch – a phob lwc.

GWERS 5.

Helo unwaith eto.

Nawr eich bod chi wedi rhoi'ch adroddiadau at ei gilydd, y pumed cam yn y broses o greu newyddion – yw rhoi trefn arnyn nhw – er mwyn gwneud bwletin newyddion i'r teledu neu radio, neu gyfres o adroddiadau testun.

Y syniad yw eu rhoi nhw mewn trefn fydd yn apelio at eich cynulleidfa – un sy'n eu diddori nhw – ac yn eu cadw i wyllo, gwranddo a darllen i'r pen.

Mae'r adroddiadau'n cael eu gosod mewn TREFN DDARLLEDU ac yn aml mae trafodaeth danbaid i benderfynu pa straeon i'w cynnwys a pha rai i'w hepgor.

Yn y BBC, y golygydd sy'n penderfynu'n derfynol.

Ar Ddiwrnod Newyddion y Bwletin Ysgol, efallai y byddwch am benodi golygydd hefyd.

Y stori bwysicaf, yr un gyntaf mewn bwletin, neu'r un uchaf ar eich tudalen flaen – yw'r BRIF STORI neu'r un sy'n ARWAIN.

Yna mae'r straeon sy'n dilyn yn cael eu graddio yn ôl y diddordeb i'ch cynulleidfa – gan anelu at gymysgedd dda o straeon. Y gymysgedd sydd wrth wraidd bwletin newyddion da.

Yn aml mae straeon ymhellach i lawr y drefn yn ymddangos yn debyg o ran arwyddocâd. Felly gallwch chi grwpio straeon at ei gilydd mewn CRYNODEB NEWYDDION.

Gallwch chi gynnwys crynodeb o straeon cenedlaethol neu ryngwladol.

Mae rhai bwletinau newyddion yn cynnwys crynodeb chwaraeon. Mae hyn yn syniad da hefyd – Efallai y byddwch chi am ganolbwyntio ar chwaraeon yn yr ysgol, gan adrodd ar gemau a chyfweld â'r chwaraewyr a'r hyfforddwyr. Mae bwletinau a gwefannau eraill yn cynnwys crynodeb o'r tywydd.

Gallwch wneud adroddiad o leoliad ar y tu allan.

Bydd rhai timau newyddion yn rhoi stori ysgafnach ar ddiwedd y bwletin fel EITEM GLO.

Meddylwch am hyd bob stori.

Yn aml y brif stori yw'r hiraf am fod ganddi fwy o wybodaeth na'r lleill. Ond ddylai hi ddim bod yn rhy hir – dydych chi ddim eisiau colli'ch cynulleidfa cyn i chi ddod at y straeon eraill.

Gall yr eitemau sy'n is yn y drefn fod yn fyr iawn, yn enwedig os ydyn nhw yn y crynodeb newyddion. A dylai hyd eich bwletin fod yn iawn ar gyfer eich cynulleidfa hefyd.

Mae Ffeil a Newsround, er enghraifft, yn fyrrach na Newyddion a'r News at Ten, sydd ar gyfer oedolion.

Mae newyddion yn newid drwy'r amser, felly mae'n bwysig bod yn HYBLYG –

Ac yn barod i newid trefn eich bwletin.
Felly i grynhoi, dyma'r cynghorion craff ar gyfer rhoi'r newyddion mewn trefn.

Meddyliwch am eich cynulleidfa
Dewiswch brif stori
Grwpwch straeon at ei gilydd, efallai mewn crynodeb newyddion

Cofiwch gynnwys amrywiaeth o straeon
Gallwch osod eitem glo neu adroddiad am y tywydd ar y diwedd
Byddwch yn hyblyg ac yn barod i newid y drefn wrth i'r newyddion newid
Penodwch olygydd i wneud y penderfyniadau terfynol.

Nawr eich bod chi wedi gosod eich straeon yn eu trefn, rydych chi bron â bod yn
barod ar gyfer y cam olaf yn y broses o greu newyddion – darlledu'r newyddion.

GWERS 6.

Helo eto – ac o'r diwedd, rydych chi bron â bod yn barod ar gyfer y chweched cam – a'r un olaf – darlledu'r newyddion.

Mae darlledu'n fyw yn gyffrous ac yn brawf i'r nerfau, ac mae'n wefr cael gweld popeth yn dod ynghyd ar ôl sawl awr o ganfod, casglu, ysgrifennu, rhoi'r cyfan at ei gilydd a'u gosod mewn trefn.

Ar y Diwrnod Newyddion, byddwch chi'n darlledu i ddedlein o ddau o'r gloch yn y pnavn.

Mae'r cloc yn tician – ond mae angen i chi gofio ychydig o brofion hanfodol gan eich bod chi'n cyhoeddi ar y we – a gan fod unrhyw un yn y byd yn gallu edrych ar eich stori – mae'n rhaid iddi fod yn iawn.

Sicrhewch fod y ffeithiau yn iawn – eto. Mae cyfeirio at y ffynonellau gwreiddiol yn syniad da.

Sicrhewch eich bod chi ond yn defnyddio enwau cyntaf unrhyw un sy'n iau na 18, am resymau amddiffyn plant.

Sicrhewch fod eich newyddion yn addas ar gyfer eich cynulleidfa.

Sicrhewch ei fod yn gyfreithlon.

Mae hyn yn golygu bod gyda chi ganiatâd i ddefnyddio'r holl luniau llonydd, fideo, graffeg, a sain yn eich gwaith

Ni ddylai unrhyw un o'ch straeon chi fod am achosion llys sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Ac ni ddylech chi ledaenu clecs.

Yn y BBC, mae angen i'r golygydd fwrw golwg dros y cyfan eto, cyn rhoi'r caniatâd terfynol i ddarlledu

Mae angen tîm mawr o bobl er mwyn gwneud bwletin newyddion neu wefan – ond mae'n rhaid i un person fod â'r gair olaf. Mae'n gyfrifoldeb mawr.

Peidiwch ag anghofio'ch profion technegol hefyd
Sicrhewch fod yr holl offer yn gweithio, gan gynnwys eich meicroffonau

Sicrhewch fod gwefan yr ysgol wedi'i pharatoi a'ch bod chi'n gwybod sut i gyhoeddi'r gwaith ar y we.

Does dim pwrpas gweithio'n galed i wneud eich rhaglen a methu â'i ddarlledu i'ch cynulleidfa.

Yn y BBC, ry' ni'n cael ymarfer technegol cyn pob bwletin newyddion.

Ac mae'r cyflwynwyr yn ymarfer hefyd.

Dwedwch y newyddion yn naturiol.

Darllenwch yn glir heb ruthro. Mae newyddiadurwr proffesiynol yn darllen tua thri gair o'r sgript bob eiliad.

Mae angen saib rhwng pob stori newyddion – fel ei bod hi'n glir pryd mae un yn dod i ben a'r llall yn dechrau.

Os ydych chi'n llithro, peidiwch â phoeni. Os yw e'n gamgymeriad bach, ewch yn eich blaen.

Gwnewch hyn mor esmwyth â phosib heb fynd i banig.

Felly mae'n amser – o'r diwedd – i chi ddarlledu eich newyddion.

Rydych chi wedi recordio'ch newyddion ond dyw'r cyfan ddim ar ben eto – mae angen i chi lwytho'r newyddion i wefan eich ysgol – wedi'r cyfan, pa iws yw newyddion heb gynulleidfa!

Atgoffwch bawb i edrych arno ar y we - a chael eu hymateb. Gofynnwch iddyn nhw am eu barn.

Ar ôl darlledu, mae pob tîm newyddion y BBC yn dod at ei gilydd i drafod beth aeth yn dda a beth y gellir ei wella.

Mae'n syniad da i chi wneud yr un peth.

Mae creu newyddion yn dipyn o her – felly dyma'r cynghorion craff –

Gwnewch yn siŵr

Eich bod chi'n cadw llygad ar y cloc a'r dedlein sy'n agosáu

Eich bod chi ond yn defnyddio enwau cyntaf -

Bod eich straeon yn gyfreithiol –

Bod yr offer yn gweithio

Mae angen ymarfer

Ac yna darlledu – drwy ffrydio neu gyhoeddi'ch gwaith ar wefan yr ysgol

Trafodwch y darllediad a gofyn i bobl am eu barn

Bydda i'n edrych i weld sut hwyl gawsoch chi i gyd.

Pob lwc – a mwynhewch.